



Tystysgrif Mynediad mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg

Arholiad 8 Mehefin 2022 (Dydd)
8 June 2022 Examination (Day)

PRAWF SIARAD *Speaking Test*

Taflen yr Ymgeisydd *Candidate's Sheet*

Hyd: tua 8-10 munud
Duration: approximately 8-10 minutes

Mae 4 rhan i'r prawf llafar. Bydd pob rhan o'r prawf yn cael ei recordio a'i hasesu'n allanol.

- Yn Rhan 1, rhaid i chi a'r cyfwelydd ddarllen deialog yn uchel. Y cyfwelydd sy'n dechrau. Dewiswch **naill ai** fersiwn y de **neu** fersiwn y gogledd.
- Yn Rhan 2, bydd y cyfwelydd yn gofyn 8 cwestiwn i chi amdanoch chi'ch hun.
- Yn Rhan 3, bydd y cyfwelydd yn gofyn 5 cwestiwn am y person ar dudalen 4 ar y daflen hon.
- Yn Rhan 4, rhaid i chi ofyn 5 cwestiwn i'r cyfwelydd, gan ddefnyddio'r geiriau ar dudalen 5 fel sbardunau.

There are 4 parts to the speaking test. Each part of the test will be recorded and assessed externally.

- In Part 1, you and the interviewer must read the dialogue aloud. The interviewer will start. Choose **either** the south **or** north Wales version.
- In Part 2, the interviewer will ask you 8 questions about yourself.
- In Part 3, the interviewer will ask 5 questions about the person on page 4 of this sheet.
- In Part 4, you must ask the interviewer 5 questions, using the words on page 5 as prompts.

Rhan 1 – Darllen yn uchel

Part 1 – Reading aloud

Fersiwn y De

South Wales Version

Cyfwelydd: Prynhawn da.
Interviewer:

Ymgeisydd: Prynhawn da. Dych chi'n gwerthu papurau? Dw i eisiau
Candidate: prynu papur ardal Llaneurig.

Cyfwelydd: Yr Angor?

Ymgeisydd: Ie, dyna chi. Mae hanes fy mam-gu i yn y papur y mis yma.
Roedd ei phen-blwydd hi yn gant oed dydd Sul diwetha.

Cyfwelydd: Wir? Ydy hi'n cadw'n iach?

Ymgeisydd: Ydy, diolch am ofyn. Mae hi'n mynd am dro bob dydd ac
yn darllen llyfrau Cymraeg drwy'r amser.

Cyfwelydd: Da iawn. Mae'n ddrwg gyda fi, does dim un copi o'r Angor ar ôl.

Ymgeisydd: Peidiwch poeni. Dw i'n siŵr bydda i'n gallu prynu un yn
y swyddfa bost. Diolch am eich help.

Fersiwn y Gogledd

North Wales Version

Cyfwelydd: Prynhawn da.
Interviewer:

Ymgeisydd: Prynhawn da. Dach chi'n gwerthu papurau?
Candidate: Dw i isio prynu papur ardal Llaneurig.

Cyfwelydd: Yr Angor?

Ymgeisydd: Ia, dyna chi. Mae hanes fy nain i yn y papur y mis yma.
Roedd ei phen-blwydd hi yn gant oed dydd Sul diwetha.

Cyfwelydd: Wir? Ydy hi'n cadw'n iach?

Ymgeisydd: Ydy, diolch am ofyn. Mae hi'n mynd am dro bob dydd ac yn darllen llyfrau Cymraeg drwy'r amser.

Cyfwelydd: Da iawn. Mae'n ddrwg gen i, does 'na ddim un copi o'r Angor ar ôl.

Ymgeisydd: Peidiwch â phoeni. Dw i'n siŵr bydda i'n medru prynu un yn y swyddfa bost. Diolch am eich help.

Rhan 2 – Ateb cwestiynau

Part 2 – Answering questions

Yma, bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau i chi amdanoch chi'ch hun. Dylech chi ateb gan ddefnyddio brawddegau llawn.

Here, the interviewer will ask you questions about yourself. You should answer using full sentences.

trosodd/over

Rhan 3 – Cwestiynau am y llun

Part 3 – Questions about the picture

Dyma lun o berson gyda gwybodaeth amdano. Bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau i chi a dylech chi ateb gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddir, gan ddefnyddio brawddegau llawn.

Here is a picture of a person with some information about him. The interviewer will ask you questions, and you should answer using the information given, using full sentences.



Dyma Wiliam.

Byw: Caerdydd

Ddoe: i'r dafarn

Teulu: 2 fab/hogyn

Amser sbâr: canu

Gwaith: [Llun/Picture]

Rhan 4 – Cwestiynau i'r cyfwelydd

Part 4 – Asking the interviewer questions

Mae nifer o eiriau isod. Gofynnwch 5 cwestiwn i'r cyfwelydd gan ddefnyddio'r geiriau fel sbardunau. Bydd y cyfwelydd yn rhoi atebion byr.

There are a number of words below. Ask the interviewer 5 questions using the words as prompts. The interviewer will give short answers.

- 1. amser sbâr**
- 2. neithiwr**
- 3. gallu/medru**
- 4. plant**
- 5. Faint**

Dyna ddiwedd y prawf.

That's the end of the test.

